

Trugaredd

Darllen: Salm 8:4

Weithiau, mae'n anodd iawn cadw cydbwysedd. Caiff rhywun ei dynnu i bob cyfeiriad. Mae cymaint o bwysau arnom nes ein bod yn ofni symud. Mae'n ymdrech fawr i roi un droed o flaen y llall a cheisio symud ymlaen. Mae rhyw wagle mawr o'n cwmpas, a ffordd bynnag yr edrychwn does dim i afael ynddo.

Mae gwyllo'r athletwyr yn cerdded y wifren denau yn mynd â'm gwynt yn lân. Sôn am 'lwybr cul'! Mae angen hyder a chydbwysedd – a sgil – i gerdded ar hyd y wifren. Mae gofyn gwyllo pob symudiad yn ofalus, un droed o flaen y llall heb orbwyso i un cyfeiriad na'r llall. Ac yna, y cyffyrddiad â'r wifren. Mae gofyn penderfyniad anhygoel.

Mae gofyn i'r Cristion gael cydbwysedd tebyg. Y perygl ydi y byddwn yn gorbwysleisio un ochr ar draul yr ochr arall – a'r canlyniad ydi un siglad enfawr fydd yn ein hyrddio oddi ar y wifren. Mae'r Salmydd yn gofyn, 'Beth yw meidrolyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano?' (Salm 8:4), ac mae'n mynd ymlaen i ddweud bod Duw'n gofalu amdanom, er ein bod yn ymddangos yn fychan, 'Eto gwnaethost ef ychydig islaw duw' (5). A dyna ddangos pa mor ostyngedig y dylen ni fod. Y wyrth ydi bod Duw wedi'n creu ni, ac wedi'n gwneud ni'n fawr. A dyna'r adeg i ni gadw'r cydbwysedd ar y wifren. Pan fyddwn ni'n teimlo'n isel a diwerth, cofiwn ein bod 'ychydig islaw duw'.

Ond o dro i dro mae'n rhaid i ni gywiro'r cydbwysedd hwn. Mae'r byd yn llawn o bobl sy'n ymddwyn fel duwiau, heb ddangos unrhyw gyfrifoldeb na thrugaredd a thosturi at eraill. Mae'r trahaus a'r balch yn dal i ormesu ac yn gwneud i bobl deimlo'n isel a diddim. Clywn yn aml am bobl mewn awdurdod yn tra-arglwyddiaethu ar eraill, a'u bychanu. Beth am y pennaeth ysgol sy'n trin yr athro yn ei flwyddyn gyntaf gyda dirmyg a diffyg parch? Dim cefnogaeth. Dim iot o gydymdeimlad. Dim ond gweld beiau a

beirniadu'n llym. Yr un modd y rheolwr-gyfarwyddwr yn y gweithle, â'i lach ar ambell unigolyn. 'Ddim yn tynnu ei bwysau! Ddim yn gwneud digon o elw i'r cwmni!' Dyma'r duwiau sy'n teyrnasu.

Y sgil ydi cadw'r balans. Mae arnom angen gwyleidd-dra, i sylwi ein bod 'ychydig islaw duw', ond hefyd i ddangos trugaredd at ein cyd-ddynion. Sylwch ar y cerddwyr ar y gwifrau. Nid eu dwylo'n unig y maen nhw'n eu defnyddio i gadw'r balans; ar brydiau, maen nhw'n defnyddio polyn anferth. Fe allwn wneud rhyw gymaint o gadw cydbwysedd ein hunain – chwifio'n dwylo o gwmpas, fel petai – ond er mwyn cael y balans cywir mae'n rhaid wrth gyfarpar oddi allan i ni ein hunain. A dyna mae Efengyl Iesu Grist yn ei roi i ni. Dysgu sut i gadw'r cydbwysedd. Peidio gadael i'r syniad ein bod 'ychydig islaw duw' fynd i'n pennau, a chofio'n cyfrifoldeb at ein cyd-ddyn trwy ddangos trugaredd a thosturi Iesu.

Myfyrdod pellach:

Sut mae diffinio trugaredd?

Y gamp bob amser yw casáu pechod ond bod yn ddigon trugarog i dosturio wrth y troseddwr. Ai dyma'r nod i'r Cristion?